# Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Gâr

## Gweithredu o ran y Gymraeg

2019 - 2020




sirgar.llyw.cymru

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Gâr 2019/20

**Cynnwys**

Cyflwyniad ... 1

Cydymffurfio â'r Safonau Cynllunio Gwasanaethau ... **3**

Cyrsiau Addysg ... **5**

Arddangos Deunyddiau ... **7**

Codi Ymwybyddiaeth o Wasanaethau ... **7**

Digwyddiadau Cyhoeddus ... **10**

Cyfrannu i Ddatblygiadau Cenedlaethol a Rhanbarthol ar y Safonau ... **11**

Cydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi ... **12**

Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu ... **12**

Cydymffurfio â'r Safonau Hybu ... **15**

Argraffu a Ddosbarthu Adnoddau ... **15**

Cwynion a Dderbyniwyd ... **18**

Hyfforddiant a Ddarparwyd ... **19**

Awdit Sgiliau Iaith ... **22**

Recriwtio ... **23**

Astudiaeth Achos 1: Fideo Nofio ... **25**

Astudiaeth Achos 2: Hyfforddiant Beicio, *Ready, Set, Ride* ... **27**

Astudiaeth Achos 3: Dathliad Dysgu ... **29**

## Cyflwyniad

Dyma Adroddiad Blynyddol o waith Cyngor Sir Gâr ar gyfer 2019/20. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y *bedwaredd flwyddyn o weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg*. Mae adroddiad eleni yn dilyn fformat tebyg i llynedd gyda disgrifiadau o weithgareddau wedi'u clystyru fesul dosbarth o Safonau, gan fod y gwaith o sefydlu systemau i gydymffurfio â'r Safonau unigol wedi ei wneud, a llawer o'r gwaith o gydymffurfio'n parhau'n gyson a heb fod angen ei ailadrodd.

Yn ystod 2019/20, mae *Prif Weithredwr newydd* Cyngor Sir Gâr wedi rhoi hwb newydd i weithredu'r Safonau o fewn y Cyngor, yn enwedig drwy ei hawydd a'i pharodrwydd i weithredu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn cyfarfodydd democrataidd. Yn y cyfamser, mae'r *Aelod Bwrdd Gweithredol* sy'n gyfrifol am ddatblygu'r iaith Gymraeg wedi parhau i arwain a sicrhau cynnydd pellach o ran gwaith mewnol y Cyngor yn ogystal ag adeiladu ar bartneriaethau gyda chyrff eraill er mwyn hybu'r Gymraeg ar draws Sir Gâr.

Mae *Panel Ymgynghorol yr Aelodau ar y Gymraeg* wedi parhau i dderbyn diweddariadau cyson am y Safonau, ac wedi parhau a'i rôl allweddol wrth gynnig cyngor, monitro cynnydd a galw am dystiolaeth o'r cynnydd hwnnw gan adrannau penodol o fewn y Cyngor. Mae'r Panel hwn wedi cwrdd 5 gwaith yn ystod y flwyddyn ac wedi derbyn adborth ar Adfywio, y Blynyddoedd Cynnar, Cymraeg yn y gweithle, Prentisiaethau a phrofiad gwaith, yr Arweinwyr Iaith, Cynllunio, Dysgu Cymraeg i Oedolion a Safoni enwau lleoedd.

Mae *Fforwm Strategol Sirol y Gymraeg*, sy'n parhau i gael ei arwain gan y Cyngor ac yn cynnwys cynrychiolaeth o fudiadau hyrwyddo iaith y sir, yn ogystal â chyrff cyhoeddus sydd â swyddogion iaith, hefyd wedi parhau gyda'i rôl o ddatblygu rhaglen o hybu'r Gymraeg yn y sir ac wedi cyfrannu'n helaeth i gydgynllunio ar gyfer gweithredu Cynllun Gweithredu Strategaeth Hybu Sir Gâr, yn unol â'r Safonau Hybu. Mae'r Fforwm wedi cael *Cadeirydd newydd annibynnol, sef Meri Huws*, i gynorthwyo i arwain y gwaith ac mae ei phrofiad hi'n gadael ei farc ar gyfarfodydd y Fforwm yn barod. Yn ystod y flwyddyn, fe gyfathrebwyd gyda holl fudiadau'r Fforwm i gadarnhau eu bod am barhau i fynychu'r Fforwm a chafwyd ymatebion cadarnhaol. Bellach, mae 16 o sefydliadau'n anfon cynrychiolaeth lawn i'r Fforwm, 2 sefydliad yn mynychu'n achlysurol ac 1 sefydliad fel sylwebydd. Bu'r Fforwm yn cwrdd pedair gwaith a rhoddwyd sylw penodol i'r meysydd Cyn-oed ysgol, Cynllunio, Cymathu mewnfudwyr, pobl ifanc a Chymraeg i Oedolion.

Gwnaed llawer o waith *cyfathrebu mewnol* yn ystod 2019-20. Drwy gyflwyniadau gan yr Uned Bolisi, drwy ddulliau cyfathrebu'r uned Farchnata a thrwy'r Arweinwyr Iaith, trosglwyddwyd negeseuon am y Safonau i staff. Gwnaed gwaith dwys yn cyfleu negeseuon am y Safonau ac am ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle mewn digwyddiadau amrywiol hefyd ar draws adeiladau'r Cyngor ar *ddiwrnod Shwmae*, ar *ddydd Gŵyl Dewi* ac ar adegau eraill o'r flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, bu modd addasu ein systemau o gasglu data sgiliau iaith ein staff newydd a staff oedd yn dymuno dechrau dysgu Cymraeg o'r newydd wrth i'r Gwirydd ar-lein gael ei ddarparu gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg. Mae'r gwirydd electroneg wedi ein galluogi i gysoni ac i ehangu ein proses o asesu sgiliau iaith staff, ac mae hyn yn ei dro'n hwyluso canfod cyrsiau addas ar gyfer datblygu'r sgiliau hynny. Cynhyrchwyd adnodd newydd i fentoriaid er mwyn cefnogi dysgwyr ac mae'r drefn o gytuno a gosod Cytundebau Dysgu ar gyfer ar gyfer aelodau newydd o staff nad ydynt yn cwrdd â lefel ieithyddol swydd pan benodir hwy yn mynd yn ei flaen.

Mae'r cyfarfodydd rheolaidd wedi parhau gyda *chydweithwyr yn yr isadran Rheoli Pobl*, er mwyn sicrhau cynnydd yn unol â'r Safonau ac er mwyn derbyn adborth rheolaidd o ran gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Iaith. Mae'r isadran yn monitro'r prosesau recriwtio ac yn cefnogi rheolwyr o ran cynnal *asesiadau iaith* swyddi ac maent hefyd yn gyfrifol am y ddarpariaeth *hyfforddiant a chefnogaeth cyflogaeth* i holl staff y cyngor. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gwneud dadansoddiad manwl o sgiliau Iaith y gweithlu sydd wedi'u recriwtio a'r sgiliau yr hysbysebwyd amdanynt. Yn dilyn dilysu'r data, byddwn yn gwneud darn o waith penodol yn adnabod y prif feysydd lle mae recriwtio siaradwyr Cymraeg yn her, ac yn cynllunio er mwyn cyrraedd yr heriau hynny.

Parhaodd y Gweithgor i drafod y *Gymraeg ym Myd Busnes* i gwrdd yn ystod y flwyddyn a rhoddwyd i'r grŵp hwb ychwanegol o gael cefnogaeth y Pennaeth Datblygu Economaidd newydd. Mae dealltwriaeth llawer gwell a chysylltiadau cryfach erbyn hyn rhwng swyddogion o adrannau amrywiol y Cyngor sy'n ymwneud gyda'r sector preifat â swyddogion Byd Busnes a Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wrth i ni ddylanwadu ar ddefnydd busnesau o'r Gymraeg.

Mae'r tudalennau sy'n dilyn yn cyflwyno gwybodaeth bellach am waith y Cyngor fesul dosbarth o Safonau.




Llun o ddau aelod o staff Adran yr Amgylchedd gyda ffrâm hun-lun yn hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg.

## Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

**SAFONAU**


**Gohebiaeth (1-7), Ffôn (8 -22), Cyfarfodydd a digwyddiadau (24-36) Cyhoeddusrwydd, arddangos deunydd a llunio dogfennau a ffurflenni (37-51), Gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol (52-59), Peiriannau hunan wasanaeth (60), Arwyddion (61-63), Gwasanaeth derbynfa (64-68), Hysbysiadau swyddogol (69-70), Dyfarnu grantiau a chontractau (71-80), Systemau annerch (87), Safonau ar gyfer codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau Cymraeg (81-82), Hunaniaeth gorfforaethol (83), Cyrsiau (84-86)**

## Cydymffurfiaeth gyffredinol – codi ymwybyddiaeth mewnol o'r Safonau

Wrth i amser fynd yn ei flaen ers cyflwyno'r *Safonau*, gwneir llai o waith strategol i hyrwyddo gofynion y Safonau fel y cyfryw a mwy o waith o godi ymwybyddiaeth yn gyffredinol. Erbyn hyn, hyderwn fod y drefn anwytho yn sicrhau fod staff newydd yn cael mynediad i'r canllawiau ar y fewnrwyd sy'n egluro i staff beth yw'r gofynion o ran cydymffurfio gyda'r Safonau. Penderfynwyd bod angen gwella gweledеdd y Canllawiau fodd bynnag ac fe fydd gwaith ar ailwampio'r tudalennau ar y fewnrwyd yn digwydd yn ystod 2020-21. Bydd hyn yn cynnig cyfle i dynnu sylw o'r newydd at y Safonau yn fewnol.

Gwnaed ychydig o waith diweddaru'r Canllaw Cymraeg a'r Cyfrifiadur i adlewyrchu datblygiadau TGCh megis *Microsoft Translate* ac fe fydd y diweddariad hyn yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno gyda'r tudalennau mewnrwyd newydd.

Cynhaliwyd rhai cyflwyniadau yn ystod '19/20 i hyrwyddo'r Safonau. Deilliodd tri chyflwyniad o waith Arweinwyr Iaith newydd yr Adran Cymunedau. Cyflwynwyd y Safonau i grŵp o ymwelwyr iechyd ***Dechrau'n Deg***, grŵp rhianta a gweithwyr cymdeithasol y rhaglen ac esgorodd y cyflwyniadau ar berthynas agosach rhwng y rhaglen a'r uned bolisi. Gwnaed cryn dipyn o waith datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg gyda'r rhaglen yn ystod y flwyddyn, fel y disgrifir yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.




Cynhaliwyd cyfres o gyflwyniadau ar y Safonau o fewn yr Adran Amgylchedd yn ystod Medi 2019. Pwrpas y cyflwyniadau gan Arweinwyr Iaith ***Adran yr Amgylchedd*** oedd i godi ymwybyddiaeth y staff gweithredol o'r Gymraeg, o'r Safonau ac o swyddogaeth gynorthwyol yr Arweinwyr Iaith. Roedd y dull yma o ymgysylltu yn newydd ac wedi'i deilwra yn benodol at y swyddogaethau llinell flaen hynny. Cafwyd adborth positif iawn o'r gweithdai hynny a byddwn yn edrych i barhau'r ddeialog hynny yn y flwyddyn sydd i ddod.

Gosodwyd sleidiau newydd ac ychwanegol yn hyfforddiant anwytho adran yr amgylchedd, sy'n atodol i hyfforddiant anwytho canolog y cyngor. Yn y sleidiau, rhoddwyd wybodaeth am y Safonau a'u pwrpas yn ogystal â gwybodaeth am rôl a manylion cyswllt Arweinwyr Iaith yr Adran yn cynorthwyo staff i gydymffurfio a'r Safonau.



Trefnwyd digwyddiadau i ddathlu Gŵyl Dewi 2020 mewn tri o adeiladau'r Cyngor, sef Neuadd y Sir, Caerfyrddin, Parc Myrddin, Caerfyrddin a Theatr y Ffwrnes Llanelli. Daw'r llun o ddigwyddiad dathlu ym Mharc Myrddin, lle trefnwyd i godi arian at elusen, drwy goffi a chacen.

Sonnir am rhain wrth drafod 'hybu defnydd mewnol' (t.14) ond roedd y tri digwyddiad hefyd yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o'r Safonau a'r hyn o ddisgwylir oddi wrth y staff.



*Carmarthenshire County Council Welsh Language Standards*

**Templed: e-bost sut i drefnu cyfarfod**
***Template: how to arrange a meeting by e-mail***

| | |
|---|---|
| Annwyl | Dear |
| Rydym yn trefnu cyfarfod i drafod | We are arranging a meeting to discuss |
| Bwriad y cyfarfod fydd... | The aim of the meeting will be to... |
| Hoffwn i eich gwahodd i... | I would like to invite you to... |
| Fyddai modd i chi gadarnhau eich bod ar gael ar ddydd ___, mis___, dyddiad, am __ o'r gloch? | Could you please confirm that you are available to attend on ___day, month, date at ___o'clock? |
| Wrth ymateb, fyddai modd i chi nodi a oes gennych unrhyw ofynion penodol? | When responding, could you note any specific requirements? |
| Oes angen lle parcio arnoch? | Do you need a parking space? |
| Oes gennych unrhyw anghenion deietegol? | Do you have any dietary requirements? |
| Hoffech (chi) gyfrannu yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn ystod y cyfarfod? | Would you like to contribute in Welsh or in English during the meeting? |
| Croesewir cyfraniadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg | Contributions are welcomed in Welsh or English |
| Fydd angen cyfieithu ar y pryd arnoch? | Will you require simultaneous translation? |
| Oes gennych unrhyw ofynion eraill? | Do you have any other requirements? |
| Os nad yw'r amser yma'n gyfleus i chi, fyddai modd i chi roi gwybod i ni? | If this time is not convenient for you, would you be able to let us know? |
| Atodaf gofnodion y cyfarfod diwethaf | I attach the minutes of the last meeting |
| Gwerthfawrogwn eich ymateb erbyn..., er mwyn inni allu rhoi trefniadau'r cyfarfod yn eu lle. | We'd appreciate your response by..., in order to be able to process all meeting arrangements. |
| Bydd rhagor o fanylion yn dilyn | More details will follow |
| Cofion | Regards |

Safonau 125, 24, 24A, 27, 27A, 27CH, 30, 31, 32

Dyma'r templed o ran y canllawiau ar y Safonau Gweithredu. Argraffwyd y Canllawiau ar ffurf posteri i drosglwyddo'r negeseuon yn y digwyddiadau a dosbarthwyd copïau caled o dempledi ar gyfer cydymffurfio â'r Safonau wrth ohebu.

Gwnaed gwaith parhaus ar gynghori adrannau am gymhwysiad y Safonau ar waith ymarferol yr adrannau. Yn ystod y flwyddyn, bu'r tîm Polisi a Phartneriaeth yn cefnogi meysydd megis:

- Datblygu dogfennaeth dendr ar gyfer rwydwaith o bwyntiau gwefru ceir, yn dilyn derbyn grant gan Lywodraeth Cymru. Roedd cynnig gwasanaeth talu a llinell ffon ddwyieithog yn rhan o'r tendr

- Datblygu gwaith ymchwil ar gynllun 10 Tref Wledig gan sicrhau ystyriaethau o'r elfennau ieithyddol a diwylliannol fel rhan o'r prosiectau adfywio a sefydlu'r pwyllgorau lleol
- Cefnogi ar waith tendr ar gynllun Adfywio Rhydaman, gan gynnwys gwaith ymgysylltu lleol gyda chymunedau.

## Cyrsiau Addysg

**SAFONAU**

84. Cyflenwi Gwasanaethau Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg

Gwnaed gwaith i hybu cydymffurfiaeth â'r Safon ar gyrsiau i'r cyhoedd yn ystod 2019-20 gyda'r isadran ***Hamdden*** a Diwylliant. Comisiynwyd fideo hyfforddi mewnol a oedd yn dysgu staff sut i ddarparu ***hyfforddiant nofio Cymraeg*** o fewn sefyllfa ddwyieithog.




Roedd y fideo yn arwain y staff trwy'r broses gyfan o ddarparu gwersi nofio, o gofrestru'r plentyn, i gynnig adborth i rieni ac i ddarparu'r sesiynau hyfforddi ei hunain.

Roedd y fideo yn sicrhau fod yr hyfforddiant yn digwydd yn Gymraeg a hynny heb lithro yn ôl i'r Saesneg ac yn sicrhau fod staff yn deall y gofynion o amgylch y gwersi yn ogystal wrth ymdrin a rhieni. Yn dilyn yr hyfforddiant, cynhaliwyd arolwg i ganfod argraffiadau staff o'r fideo ac i ofyn pa gefnogaeth pellach byddent angen. Cynhaliwyd sesiynau ymarfer termau Cymraeg i'r staff nofio yn ystod Chwefror 2020.

➡ ***Gweler astudiaeth achos 1***




Crëwyd ail fideo hyfforddi ar gyfer yr isadran Hamdden i hyfforddi staff ar sut i ddarparu sesiynau ***hyfforddi chwaraeon yn Gymraeg*** o fewn sefyllfa ddwyieithog, ac mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwahanol.  Mae'r fideo yn mynd i fod o ddefnydd i staff sy'n darparu sesiynau eu hunain, i staff sy'n trefnu sesiynau hyfforddi chwaraeon, ac yn wir i ddefnydd clybiau chwaraeon sy'n defnyddio cyfleusterau'r Cyngor.  Fe fydd gwaith i ledaenai'r neges o fewn y Cyngor ac ymysg y clybiau cymunedol yn digwydd yn ystod 2020-21.

Yn dilyn y darganfyddiad fod diffyg deunyddiau, *Ready Set Ride* yn Gymraeg gan y Gymdeithas Seiclo Brydeinig a Chymreig yn peri i ni fethu a chydymffurfio â'r Safonau o ran darparu ***hyfforddiant beicio***, aed ati i adfer y sefyllfa.  Bu trafodaethau helaeth gyda'r ddau gorff a enwyd ac fe gytunwyd y byddai Cyngor sir Gâr yn cyfieithu'r deunyddiau ac yn talu am y gost cyfieithu, tra y byddai Gymdeithas Seiclo Prydain yn ail-ddylunio'r deunyddiau i weddi'r deunyddiau Saesneg ac yn talu am y gost yma.  Parodd y gwaith dros gyfnod hir gyda gwaith gwirio, cywiro ac addasu.  Erbyn Ionawr 2020 roedd 3 set o gardiau dysgu seiclo i blant ar gael i'w defnyddio'n electroneg ac ar bapur a set o dystysgrifau yn Gymraeg.  Yna bu'r isadran Hamdden yn darparu hyfforddiant seiclo ar y cyd gyda'r *Youth Sports Trust* i ysgolion y sir, gan ddosbarthu'r cardiau a'r tystysgrifau Cymraeg iddynt ddefnyddio wrth ddysgu plant sut i seiclo.  Fe fyddwn yn lansio'r adnodd hwn yn ystod 2020-21.

➡ ***Gweler Astudiaeth achos 2***

## Arddangos Deunyddiau

**SAFONAU**

38. Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg

Roedd deunyddiau'r elusen ***'Swimathon'*** yn uniaith Saesneg ac yn ymyrryd ar ein trefn o arddangos deunyddiau Cymraeg yn unol â'r Safonau. Yn yr achos hwn, cyfathrebwyd gyda'r elusen am ddwy flynedd i fynegi ein pryder hyd nes iddyn nhw ddarparu baneri Cymraeg eleni. Buom yn cyfathrebu gyda nhw ar gywirdeb y Gymraeg ac mae'r deunyddiau bellach ar gael i arddangos yn ein canolfannau hamdden.



## Codi Ymwybyddiaeth o Wasanaethau

**SAFONAU**


81 Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

Yn dilyn trafodaethau yn y Fforwm Strategol Sirol ar Strategaeth Hybu'r Gymraeg, aed ati i geisio hyrwyddo'r ffaith ein bod yn gyflogwr dwyieithog sy'n gallu darparu ***profiad gwaith cyfrwng Cymraeg*** a dwyieithog. Ychwanegwyd brawddeg ar y dudalen we, a ddiweddarwyd yn Tachwedd 2019, oedd yn tynnu sylw at y ddarpariaeth hon, *'Hefyd, fel un o'r cyflogwyr mwyaf yng ngorllewin Cymru mewn sir ddwyieithog gallwn gynnig lleoliadau profiad gwaith dwyieithog ym mhob adran'*. Yna, ychwanegwyd adran at ein ffurflenni cais profiad gwaith oedd yn gofyn yn benodol:


Mae Cyngor Sir Gâr yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
Hoffech chi ymgymryd â rhywfaint o'ch profiad Gwaith yn y Gymraeg? *
○ Hoffwn ○ Na Hoffwn

O wneud y newidiadau hyn, gobeithiwn ein bod yn codi proffil Cymraeg y sefydliad, yn annog y cyhoedd i ddefnyddio dwyieithrwydd y sefydliad wrth ymwneud â ni ac, yn olaf, yn annog defnydd ein pobl ifanc o'r Gymraeg yn eu cyffyrddiad â'r byd gwaith yn y sir.

Bydd modd i ni fonitro'r atebion i'r cwestiwn hwn ar y ffurflen gais o hyn allan i weld a oes angen i ni wneud mwy i godi statws ddwyieithog y Cyngor fel gweithle. Dyma gip lun o wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn dangos y logo Iaith Gwaith fel rhan o fanylion y ddarpariaeth.





Gyda chymorth ein harweinydd iaith yn yr isadran Gwasanaethau Plant, rydyn ni wedi cymryd camau i hyrwyddo dwyieithrwydd ein *lleoliadau gofal plant*. Aed ati i gynnwys y symbol oren ar leoliadau gofal plant Cymraeg ar dudalennau Dechrau'n Deg ar ein gwefan Gwybodaeth i deuluoedd er mwyn hybu'r ddarpariaeth Gymraeg. Datblygwyd y gwaith hwn gan hybu gofal plant cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg yn ystod y flwyddyn (gw. *Strategaeth hybu*)





Er mwyn hyrwyddo ein gwasanaethau gofal plant Cymraeg ymhellach, ailargraffwyd llyfryn *Bod yn Ddwyieithog* gyda chyfeiriad at Ofal Plant cyfrwng Cymraeg a oedd yn cyfeirio bobl at y wybodaeth ar wefan gwybodaeth i deuluoedd ac at yr ymwelydd iechyd. Dosbarthwyd rhain yn y pecynnau llyfrau a roddir i deuluoedd Dechrau'n Deg.

Yn dilyn cryn newidiadau yn arlwy ein ***Theatrau o safbwynt gwaith cyfrwng Cymraeg***, mae ein isadran hamdden wedi bod yn gweithio'n ddiflino i hyrwyddo'r gwasanaethau hyn a sicrhau cynulleidfaoedd ar gyfer perfformiadau Cymraeg ein theatrau. Mae'r swyddogion wedi darparu gwybodaeth benodol i'r Fforwm Sirol yn gyson er mwyn i'r mudiadau cymunedol ledaenu'r wybodaeth ar lawr gwlad. Maent hefyd wedi coladu data sydd yn dangos bod nifer y tocynnau a werthwyd ar gyfer sioeau Cymraeg wedi parhau i gynyddu:



Roedd diwrnod *Mae gen ti hawl* yn gyfle i ni hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg ac i geisio cynyddu'r nifer sy'n dewis eu defnyddio. Ond er y cefnogodd y cyngor yr ymgyrch eleni ond gan iddo syrthio ar gyfnod rhag-etholiadol, nid oedd modd cefnogi'r ymgyrch yn llawn.

## Digwyddiadau Cyhoeddus

**SAFONAU**

36. Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad ...

Cafwyd nifer fawr o ddigwyddiadau cyhoeddus, arwyddocaol yn ystod y flwyddyn a drefnwyd ac a gynhaliwyd yn unol â'r Safonau. Roedd *digwyddiad blynyddol y Fforwm 50+* yn ddigwyddiad ddwyieithog gyda gwaith hyrwyddo a chyfathrebu'n ddwyieithog a chyda gweinyddiaeth a darpariaeth ddwyieithog lwyr yn y Gerddi Botaneg eleni. Sicrhawyd siaradwyr Cymraeg yn rhan o'r digwyddiad yn y prif babell a darparwyd cyfarpar cyfieithu ar y pryd ar gyfer y Di-Gymraeg.

Trefnwyd digwyddiad *ymgynghori gyda phobl ifanc* a fynychwyd gan bron holl ysgolion uwchradd y sir. Cyflwynwyd i'r bobl ifanc yn Gymraeg ac yn Saesneg gan Arweinydd y Cyngor, y Prif weithredwr a rhai o'r uwch swyddogion. O wneud hyn, rhoddwyd statws gyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg ac anogwyd y bobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymdrin â materion o bwys cyhoeddus. Yn ogystal, cafwyd cwestiwn benodol yn rhan o'r drafodaeth am gynyddu nifer y siaradwyr yn y sir oedd yn gosod y Gymraeg ar yr agenda ac yn annog trafodaeth arno ymysg y bobl ifanc. Cynhaliwyd gweithdai Cymraeg i'r disgyblion o ysgolion Cymraeg ac fe gafodd y disgyblion hyn wneud eu cyflwyniadau'n Gymraeg hefyd.


## Cyfrannu i ddatblygiadau cenedlaethol a rhanbarthol ar y Safonau

- Mynychwyd Gweithdy gyda'r Comisiynydd a oedd yn trafod y mater o hybu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn y sector cyhoeddus. Esgorodd y trafodaethau hyn ar yr ymgyrch, *'Mae gen ti Hawl'* a gyfeiriwyd ati eisoes.
- Trefnwyd hefyd grŵp o staff i drafod y Safonau gyda'r Comisiynydd. Darparwyd siaradwyr Cymraeg o amrywiaeth o adrannau i gyfleu eu hymwybyddiaeth o'u dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg, y trefniadau mewnol a sut mae'r sefydliad yn eu cefnogi nhw i ddefnyddio a datblygu eu Cymraeg.
- Cyflwynwyd ein profiadau o weinyddu a chadeirio ein Fforwm sirol mewn perthynas gyda'r Strategaeth Hybu i Gynhadledd flynyddol Mentrau Iaith Cymru. Rhannwyd arfer dda ynglŷn ag aelodaeth y Fforwm, ein modd o lunio'r Strategaeth o fewn y Fforwm a'n trefniadau i ymweld â'r themâu ym mhob cyfarfod.
- Trefnwyd aelodau o staff i dreialu fersiwn Gymraeg papurau'r Cyfrifiad. Cynhaliwyd cyfres o sesiynau byr a oedd yn fodd i'r ONS i wirio a oedd y fersiwn Gymraeg o'r papurau yn gywir ac yn ddealladwy.

## Cydymffurfio â’r Safonau Llunio Polisi (Safonau 88 – 97)

**SAFONAU**

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu’n adolygu neu’n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio’r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai’r penderfyniad polisi’n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio’r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg.




Gwnaed llawer o waith eleni i gynorthwyo’r isadran Gynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth â’r Safonau llunio polisi wrth ymdrin â llunio’r ***Cynllun Datblygu Lleol newydd***. Mae’r llun uchod yn amlinellu effaith bosib y Cynllun Datblygu Lleol ar y Gymraeg. Comisiynwyd gwaith i asesu effeithiau tebygol **Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin (2018-2033)** ar yr Iaith Gymraeg. Cafwyd ymchwil manwl ac arweiniad clir ar fethodoleg addas i asesu effaith ar yr iaith. Mae’r gwaith hwn yn cynnig fframwaith llawer iawn mwy cydnerth na rhai a fu ar gael a hyderwn y bydd dilyn y fethodoleg i asesu effaith y Strategaeth a ffefrir a’r Cynllun Adneuo yn sicrhau effaith mwyaf cadarnhaol posibl y Cynllun Datblygu lleol ar y Gymraeg. Paratowyd bapur pwnc manwl ar y Gymraeg, er mwyn gosod y cyd-destun ystadegol fel rhan o’r ymgynghoriad cyhoeddus.

Yn ogystal â’r gwaith ar y Fframwaith asesu effaith, lledaenwyd cyfleoedd i ymgynghori ar y broses o lunio’r Cynllun Datblygu Lleol newydd gyda holl fudiadau sy’n hyrwyddo’r Gymraeg yn y sir, er mwyn sicrhau mewnbwn arbenigol o safbwynt y Gymraeg ar y Cynllun.

Yn ystod 2017-18, cynhaliwyd grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar adfywio ardaloedd gwledig Sir Gâr yn economaidd ac yn gymdeithasol. Roedd hwn yn ymdrech i dalu sylw i anghenion gwledig yn wyneb y buddsoddiad a fu drwy’r Fargen Ddinesig yn yr ardaloedd trefol. Yn ystod 2019-20 cyhoeddwyd Cynllun Strategol **Symud Sir Gâr Wledig ymlaen**. Mae’r Gymraeg wedi bod yn greiddiol i’r polisi hwn o’r cychwyn cyntaf. Cydnabyddir yr angen i greu amodau economaidd a chymdeithasol a fydd yn galluogi bobl ifanc i aros neu i ail-ymgartrefu yn y sir ac mae datblygu ardaloedd gwledig mewn modd a fydd yn galluogi’r Gymraeg i ffynnu yn cael ei adnabod fel *‘egwyddor[ion] cyffredin ar draws holl argymhellion y Grŵp Gorchwyl’*.

Gwnaed gwaith i gynorthwyo'r Adran Addysg i weithredu'r **Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** yn unol â'r Safonau. Bu'r Uned Bolisi'n cynorthwyo ar y broses o ymgynghori gyda chymunedau'r ysgolion a oedd yn newid i ddarparu addysg Gymraeg a sicrhawyd fewnbwn ymarferol y mentrau yn ogystal er mwyn sicrhau fod y polisi'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol posib ar ddefnydd y Gymraeg yn yr ardaloedd dan sylw.

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein dull o **Asesu Effaith yn Integredig** ac wedi cynnal nifer o sesiynau gyda phenaethiaid gwasanaeth er mwyn cael adborth ar y templed. Mae ffurflen electroneg o'r templed wedi'i datblygu, a bydd yr asesiad yn cael ei gyhoeddi law yn llaw a'r papurau ar gyfer y cyfarfodydd Democrataidd.

Cynhaliwyd weithdy mewnol i graffu ar Hyrwyddo'r Gymraeg a Diwylliant fel amcan llesiant, i wirio a oedd yr amcan yn ystyried a gweithredu y *'Pum Ffordd o Weithio'* sy'n rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Adnabuwyd nifer o gryfderau ynghyd a syniadau newydd ar gyfer ein cynllun busnes yn 2020-21.

## Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredu (Safonau 98 – 144)

### Hwyluso Defnydd Mewnol




I gyd-fynd gyda'r system sydd gan y Cyngor o baru dysgwr gyda mentor yn y gweithle i atgyfnerthu defnydd y dysgwr o'r Gymraeg, comisiynwyd Pecyn mentoriaid, *Dewch i Sgwrsio*, i gynorthwyo'r mentoriaid gyda'r gwaith. Crëwyd pecyn o ddeunyddiau, esiamplau a chyngor ar sut i gynorthwyo dysgwr trwy fentora, a'r cyfan wedi ei osod allan i gyd-fynd gyda lefel iaith y dysgwr a'r mathau o gystrawennau y mae'n dysgu ar ei gwrs. Lansiwyd yr adnodd hwn ar ddiwrnod Shwmae (gweled dathliad dysgu isod). Rhannwyd yr adnodd hwn gyda Heddlu Dyfed Powys, iddynt ddefnyddio gyda'u staff nhw o fewn y llu.




Dyluniwyd ac argraffwyd **cardiau fflach** ar gyfer ein staff cymunedol sy'n gweithio yn y sector Gofal fel rhan o Gynllun Datblygu y Gweithlu Gofal Cymdeithasol. Mae'r cardiau, *Gofalu yn y Gymraeg*, sydd wedi eu dylunio i hongian o amgylch y gwddf neu ar glip yn atgoffyn ar gyfer staff sydd yn dysgu Cymraeg neu'n ddi-hyder eu Cymraeg i'w galluogi i ddefnyddio Cymraeg gyda'u cleientiaid.






Ar *ddiwrnod Shwmae*, 15.10.2019, oedd yn cyd-fynd gyda'r *Wythnos Dysgu Cymraeg*, cynhaliwyd digwyddiad a oedd yn tynnu ynghyd ein ymdrechion i gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle ac yn dathlu llwyddiannau ein dysgwyr o dan y teitl '*Dathlu Dysgu Cymraeg'*. Roedd y digwyddiad yn gyfle i lansio'r Pecyn i Fentoriaid, y Fideo hyfforddi nofio a'r Cardiau fflach ac yn gyfle i gyflwyno tystysgrifau i staff sydd yn mynychu cyrsiau Cymraeg. Roedd y theatr yn yr Egin yn gyfforddus lawn a cafwyd adborth gadarnhaol am y digwyddiad (Gweler Astudiaeth Achos).

Ar *Ddiwrnod Shwmae*, cynhaliodd Arweinwyr Iaith yr isadran Hamdden ddigwyddiad i annog defnydd y Gymraeg yn y gweithle a thu hwnt. Dyluniwyd ***Goeden Addewidion*** ac anogwyd staff a'r cyhoedd yn Llyfrgell Llanelli a Chanolfan Hamdden Dyffryn Aman. Llwyddwyd codi statws y Gymraeg ymysg y staff ac, i raddau, y cyhoedd hefyd. Nodwyd pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg a rhoddwyd cyfle i staff i adnabod cyfleoedd i ddefnyddio mwy o Gymraeg pa bynnag mor rhugl y maent.

Cynhaliwyd Bore Coffi ar ddiwrnod Shwmae yn Llyfrgell Llanelli hefyd. Roedd Arweinydd Iaith y llyfrgell yn croesawu bobl i gael paned a sgwrs yn Gymraeg a dangosodd dau aelod newydd o staff ddiddordeb mewn dysgu Cymraeg o ganlyniad.






Digwyddiad arall a drefnwyd i gynyddu defnydd ein staff o'r Gymraeg oedd ***Cwis diwrnod Shwmae*** a drefnwyd gan Arweinwyr Iaith yr Amgylchedd. Digwyddiad ar ôl y gwaith oedd hwn yn yr Atom, Caerfyrddin. Trefnwyd Marc Griffiths i gynnal y cwis a mynychodd tua 35 o bobl. Roedd hwn yn gyfle i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau gwaith a phawb wedi gwerthfawrogi'r cyfle.



Ar ddechrau Gorffennaf 2019, trefnodd Arweinwyr Iaith yr Amgylchedd **Helfa Drysor** i annog defnydd y Gymraeg yn y gweithle dros ginio. Lleolwyd stondin yr Arweinwyr yn Nhŷ'r Castell ger Neuadd y Sir, lle roedd staff yn casglu taflen ac yna'n dychwelyd eu hatebion ar ôl cwblhau'r helfa drysor oedd yn codi ymwybyddiaeth am y Gymraeg o fewn y dref ac am y Safonau.

Trefnwyd dathliadau ar gyfer ***Gwyl Dewi 2020*** i gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle. Roedd y rhain yn gyfle i godi statws y Gymraeg o fewn y gweithle, cynnig cyfle i staff gymdeithasu yn Gymraeg yn y gweithle, codi ymwybyddiaeth o'r Safonau a hysbysebu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg a bod yn fentor yn y gweithle. Cynhaliwyd digwyddiadau yn Neuadd y Sir, Parc Myrddin a theatr y Ffwrnes a mynychodd tua 120 o staff y digwyddiadau.







EIN POBL | MYVIEW | HWB I YSGOLION | FFORWM STAFF

MENU: Canllawiau coronafeirws; TIC; Gweithio i ni; Democratiaeth; Adnoddau Dynol; Dysgu a Datblygu; Iechyd Galwedigaethol; Iechyd a Diogelwch; Cymorth TG; Rheoli Prosiectau; Llawlyfr Grant Prosiect; Rheoli Perfformiad

DIGWYDDIADAU DYDD GŴYL DEWI

Codwyd mwy na £200 gan staff yn y digwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi eleni yn Neuadd y Sir a Pharc Myrddin ar gyfer apêl Eisteddfod yr Urdd 2021.

Bydd y cyfanswm o £215 a godwyd yn mynd tuag at apêl y sir ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, sy'n cael ei gynnal yn Sir Gâr y flwyddyn nesaf.

Cafodd y staff gyfle i gymryd rhan mewn cwisiau, rhoi cynnig ar glocsio a dysgu mwy am ddysgu Cymraeg yn y digwyddiad ym Mharc Myrddin, a drefnwyd gan Kelly Thomas a Poppy Evans, Arweinwyr iaith adran yr Amgylchedd. Enillwyr y cwisiau oedd Meirion Jones, Kirsty Tudor ac Owain Enoch.

Yn Neuadd y Sir enillydd y cwis oedd David Jenkins o'r Adran Farchnata a'r Cyfryngau, ac fe ddaeth Tracey Davies a Sian Jones o'r adran Adfywio yn ail. Enillodd Rhiannon Evans o'r Adran farchnata y cwis logos a Gerwyn Rhys o'r uned gyfieithu enillydd y gystadleuaeth limrig, a osodwyd gan y Cyng. Peter Hughes Griffiths.

Trefnwyd y digwyddiad yn Neuadd y Sir gan Myfanwy Jones, Nia Hughes, Rhian Furlong a Bethan Morgan.

Roedd gan nifer o staff yn y digwyddiadau ddiddordeb mewn dysgu mwy am ddysgu Cymraeg ac am sut y gallant ddod yn fentoriaid.

Yn dilyn y digwyddiadau, rhoddwyd sylw iddynt ar y fewnrwyd i godi ymwybyddiaeth bellach a crëwyd vimeo i roi sylw gweledol i'r dathliadau hefyd. Mae'r llun yn dangos cip lun o'r gwaith hyrwyddo a wnaed drwy'r fewnrwyd.

Rhoddwyd 189 o aelodau i staff drwy'r ***Gwirydd Sgiliau Iaith*** ers ei gyflwyno ym Medi 2019. Ac esgorodd y broses hon ar nifer fawr o'r staff a benodwyd o dan y lefel o sgiliau iaith gofynnol i dderbyn gwybodaeth am gytundebau dysgu Cymraeg. Gwnaed ymdrech benodol i gefnogi dysgwyr newydd mewn ffyrdd amrywiol eleni gan gymryd mantais lawn o'r cyfleoedd gan y Ganolfan Genedlaethol a'r cyfleoedd a gynigir gan *Say Something in Welsh*. Cylchredwyd holiadur gan yr isadran Hamdden i weld pa fathau o gefnogaeth a fyddai'n ddefnyddiol i staff o gyfleodd ffurfiol ac anffurfiol i gynyddu eu sgiliau Cymraeg.

## Cydymffurfio â'r Safonau Hybu (Safon 145 – 146)




### Strategaeth Hybu Cyngor Sir Gâr 2017-21

Yn ystod 2019-20 parhawyd gyda'r drefn o roi ***Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hybu*** ar waith. Ymsefydlodd y drefn o edrych ar thema o'r Cynllun Gweithredu ym mhob cyfarfod chwarterol gyda'r themâu eleni yn cynnwys y Blynyddoedd Cynnar ym Mehefin 2019, Dylanwadu ar symudiadau poblogaeth ym Medi 2019, Bobl ifanc yn Rhagfyr 2019 a Chymraeg i Oedolion yn Mawrth 2020. Ym mhob un o'r cyfarfodydd hyn, cafwyd cyflwyniadau gan swyddogion o'r Cyngor yn ogystal ag o asiantaethau allanol ac yn dilyn y trafodaethau pob tro lluniwyd camau gweithredu newydd ar gyfer y cyfnod nesaf. Ceir colofn ar gynnydd a cholofn yn cynnwys camau gweithredu newydd drwy gydol y Cynllun Gweithredu erbyn hyn yn dilyn ymweld a'r holl themâu dros y ddwy flynedd diwethaf.

Yn ystod y flwyddyn, daeth *Meri Huws* yn gadeirydd annibynnol y Fforwm, a rhoddodd ei chyfraniad hwb o'r newydd i aelodaeth y Fforwm, yn ogystal ac elfen newydd ddi-duedd i arwain y drafodaeth yn fwy cadarnhaol. Bu Meri hefyd yn cyfrannu i'r drafodaeth ar sut i Fesur effaith y Strategaeth hybu wrth i ni ddod at ddiwedd cyfnod cyntaf y Strategaeth a gwnaed cryn dipyn o waith ar y posibiliadau hyn a fydd yn dwyn ffrwyth yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## Argraffu a dosbarthu Adnoddau

Parhawyd ar y gwaith o ddosbarthu a lledaenu taflen ***'Bod yn Ddwyieithog'*** yn electroneg ac ar bapur. Dosbarthwyd 3000 o gopïau caled i'r Gofrestrfa i'w dosbarthu wrth gofrestru genedigaethau babanod. Fe'i ddefnyddiwyd hefyd yn ystod y broses o ymgynghori gyda chymunedau'r ysgolion a oedd yn newid i ddarparu addysg Gymraeg yn ystod mis Mehefin 2019.

Parhawyd hefyd gyda'n hymdrechion i ddosbarthu'r *Pecyn Croeso* i ardaloedd amrywiol. *Cytunodd Ffederasiwn Ffermwyr Ifanc* y sir i ddosbarthu'r daflen wrth ganu carolau ac aed ati i drefnu fod tri o bwyllgorau apêl Urdd Eisteddfod 2021 yn dosbarthu, gan ddefnyddio'u gwybodaeth lleol i fynd at fewnfudwyr newydd i'r ardal. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2020-21.

Ailargraffwyd y daflen **Cymraeg gyda'r plant** a'i ddosbarthu ym mis Medi i holl ysgolion cynradd y sir i gyd-fynd gyda gwaith CSGA a'r Siarter iaith. Yn ôl y swyddog AGGaD, *'Mae cryn dipyn o ysgolion yn rhoi'r llyfrynnau yn "Starter Packs" y plant os nad yw'r rhieni yn siarad Cymraeg... Rwy wedi defnyddio'r llyfrynnau wrth weithio gyda rhieni ac hwyrddyfodiaid hefyd...* Mae'r ysgolion yn gweld bod y llyfrynnau yn lliwgar ac yn syml - "user friendly" gyda ymadroddion defnyddiol i'r cartref. Dosbarthwyd hefyd drwy ein Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a thrwy ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg.







Dyluniwyd ac argraffwyd taflen newydd i hyrwyddo addysg Gymraeg a oedd yn lleddfu gofidiau rheini di-Gymraeg am y mater o fethu cynorthwyo gyda gwaith cartref y plant, **'Gwaith Cartref? Dim problem'**. Sicrhawyd cymorth ariannol gan Gronfa Glyndwr a lluniwyd cynnwys a gwedd y daflen rhwng y tîm polisi a'r adran addysg. Fe fydd y llyfryn yn cael ei ddosbarthu yn helaeth ar bapur ac yn electroneg yn ystod 2019-20 a gobeithiwn y byddwn yn gallu darparu dolen i'r adnoddau hyrwyddo'r Gymraeg wrth i bobl gofrestru eu plant ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd.




Mewn cydweithrediad gyda Menter Gorllewin Sir Gar, argraffwyd copïau caled o lyfryn newydd y Fenter, **'Caneuon a Rhigymau'**. Rhannwyd y cyflenwad rhwng y Fenter a'r Cygnor a dosbarthwyd 1000 i Wasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd y Cyngor er mwyn hybu teuluoedd i ddefnyddio Cymraeg gyda'u plant bach.

Parhaodd y gwaith o **hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector preifat** yn ystod y flwyddyn drwy gyfrwng y Fforwm o swyddogion Awdurdod Lleol, Cymraeg Byd Busnes a'r Comisiynydd. Gwnaed mwy o waith hyrwyddo'r Gymraeg yn bennaf gan ddosbarthu Y Gymraeg mewn Busnes a thrwy rannu gwybodaeth ymysg y 3 corff ar y Fforwm am fusnesau oedd yn symud i Sir Gar ac angen dylanwadu arnynt. Aed ati i lythyru'r Comisiynydd i awgrymu y dylai'r llywodraeth ddiweddaru'r Rheoliadau Hysbysebu i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn benodol ynglŷn a gwarchod y Gymraeg.

Llwyddwyd hefyd cynnwys gwybodaeth am ddisgwyliadau dwyieithog y cyngor o fusnesau ddogfennau gwybodaeth ein *heiddo masnachol sydd ar osod*. Nodwyd:


> Bydd angen i chi weithredu'n ddwyieithog yn unol â pholisïau'r Cyngor gan gynnwys rhoi arwyddion dwyieithog y tu mewn a'r tu allan i'r eiddo. Mae gwasanaeth cymorth a chyngor ar gael yn ogystal â chyfieithu a phrawf-ddarllen am ddim. I gael gwybodaeth, ewch i https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/ a chliciwch ar 'Y Gymraeg Mewn Busnes'.
>
> I gael gwybodaeth a chymorth o ran gweithio'n ddwyieithog, ewch i https://www.sirgar.llyw.cymru/cartref/busnes/ a chliciwch ar ' Y Gymraeg Mewn Busnes'.

Drwy gysylltiadau yr isadran Datblygu Economaidd, daeth cyfle i gyfrannu at *gylchgrawn penodol i'r sector fusnes* yn y sir. Y bwriad oedd bod pob busnes sy'n talu trethi busnes yn y sir gopi o'r cylchgrawn, ac fe gyfrannodd y Cyngor gynnwys ar gyfer tudalen ar y Gymraeg a gwerth yr iaith ym myd busnes. Cynhwyswyd manylion am y gefnogaeth sydd ar gael drwy'r Swyddogion Byd Busnes a Chomisiynydd y Gymraeg yn ogystal.

Bu'r Cyngor hefyd yn cadeirio cyfarfodydd ***Fforwm Cymraeg Swyddogion Maes y sir***. Fe gwrddodd y Fforwm yn Ebrill 2019 gan ganolbwyntio'n benodol ar drafod defnydd o ystadegau, yn Gorffennaf i drafod y Blynyddoedd cynnar ac yn Hydref 2019 i edrych ar y maes Chwaraeon a hamdden. Yn dilyn cyfarfod Gorffennaf, sefydlodd y Cyngor fod holl adnoddau hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer y blynyddoedd cynnar yn cael eu rhannu ar Sharefile er mwyn i bawb fedru defnyddio deunyddiau ei gilydd. Gwahoddwyd staff y AGGaD, Gwybodaeth i Deuluoedd a Dechrau'n Deg y Cyngor, staff Meithrin, y Mentrau, Cymraeg i Blant, Early Years Wales a'r Awdurdod Iechyd i gael mynediad i'r deunyddiau electroneg.

Dosbarthodd ein Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Phlant wybodaeth am Ddydd Miwsig Cymru i leoliadau gofal plant y sir i'w hannog i hyrwyddo'r Gymraeg y ystod cyfnod ymgyrch y llywodraeth.

## Cwynion a dderbyniwyd 2019/20



Isod ceir rhestr o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2019/20 ynghyd â chrynodeb o'r gweithredu yn dilyn eu derbyn.


Derbyniwyd **3** cwyn yn uniongyrchol i'r Cyngor ac fe ymdriniwyd â'r cwynion yn unol â gweithdrefn gwynion y cyngor.

| | **Cwyn**<br>**Safonau Cyflenwi Gwasanaethau** | **Ymateb a gweithredu** |
|---|---|---|
| **1.** | Cais am weld polisi iaith y clwb gwyliau Actif a chwyn ynghylch diffyg darpariaeth Gymraeg yn y clwb gwyliau yng nghanolfan Hamdden Caerfyrddin | • Esboniwyd bod yr isadran Hamdden yn cynllunio darpariaeth yn unol â'r Safonau gystal ag y bo modd<br>• Ategwyd dau aelod o staff at y rota er mwyn sicrhau bod yna aelod o staff sy'n medru'r Gymraeg yn gweithio yno o hyd |
| **2.** | Cwyn am ddiffyg darpariaeth Cymraeg yn y broses o gofrestru i dderbyn gwersi nofio yng nghanolfan hamdden Caerfyrddin | • Cysylltwyd gyda'r achwynydd i drefnu gwersi Cymraeg i'r plant dan sylw. Cynigiwyd 7 opsiwn gydag aelod o staff dwyieithog ar gyfer lefel 1, a 2 opsiwn dwyieithog a 3 opsiwn rhannol Gymraeg ar gyfer lefel 3.<br>• Cofrestrwyd y plant ar gyfer y dewisiadau a wnaed. |
| **3.** | Ail gwyn am gyfrwng y gwersi nofio a diffyg ymwybyddiaeth staff y dderbynfa am gyfrwng y gwersi | • Eglurwyd i'r achwynydd ein bod yn ceisio recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg gan fod trosiant staff yn y maes hwn yn uchel. Cydnabuwyd bod angen gwell cyfathrebu rhwng y dderbynfa a'r rhaglen dysgu nofio, a diweddarwyd y cofrestrau cyfrifiadurol i ddangos pa athrawon sy'n cyflwyno eu gwersi yn Gymraeg.<br>• Yna, crëwyd fideo hyfforddiant newydd sbon i egluro i staff y canolfannau hamdden y disgwyliadau sydd arnynt o ran darparu gwersi nofio yn Gymraeg, a hynny o'r broses gofrestru ac asesi at ddarparu'r gwersi.<br>• Sicrhawyd fod pawb yn gweld y fideo a chynhaliwyd sesiynau termau nofio Cymraeg yn nhri o'r canolfannau sy'n darparu gwersi nofio. |

## Hyfforddiant a ddarparwyd

**Cynnydd o 43% mewn staff a ddilynodd gyfle Dysgu a Datblygu yn 2019/20 (223 o staff)** (156 yn 2018/19)


### Cyfleoedd Dysgu a Datblygu




Mae'r graff yn dangos y cyfleoedd ar-lein i ddysgu Cymraeg. Maent yn cynnwys Say Something in Welsh a thri modiwl Cymraeg Gwaith o'r Ganolfan Genedlaethol.


Mae’r graff yn dangos yr amrywiol lefelau o ran dysgu Cymraeg.
Mae’r nifer uchaf o ddysgwyr ar lefel Mynediad.
Mae lleihad yn nifer y dysgwyr o’r flwyddyn 2019-19 gan fod mwy o staff yn dysgu drwy’r cynllun Cymraeg Gwaith.








Mae'r graff hwn yn dangos nifer y staff sy'n mynychu darpariaeth Cymraeg Gwaith dwys, a ariennir gan y Ganolfan Genedlaethol.
Mae'r ddarpariaeth yn dilyn rhaglen ddwysach na chyrsiau cymunedol.

Rydym yn awyddus i gynnig yr ystod mwyaf eang posib o gyfleoedd i staff ddysgu, er mwyn rhoi’r hyblygrwydd o ran cyfrifoldebau gwaith a balans bywyd-gwaith.
Mae rhai staff wedi mynychu cyrsiau dwys y Ganolfan, gan dreulio wythnos yn dysgu yn ddwys.



## Cyrsiau E-ddysgu trwy Gyfrwng y Gymraeg:






**Dilynodd 99 o staff fodiwlau e-ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2019/20**
**(91 o staff yn ystod 2018/19)**

Dilynodd 720 o staff y modiwl Ymwybyddiaeth Iaith drwy gyfrwng y Saesneg

## Trosolwg o ddefnyddio'r Gymraeg o fewn Hyfforddiant

Mae llawer o gyrsiau eraill yn cynnwys y Gymraeg, yn darparu adnoddau dysgu dwyieithog ac yn rhoi cyfle i fynychwyr siarad Cymraeg. Mae Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol yn sicrhau bod eu holl adnoddau yn ddwyieithog, yn croesawi pawb yn ddwyieithog ac yn apwyntio hyfforddwyr Cymraeg fel bo angen, ac mae staff rhaglenni Dechrau'n Deg yn derbyn deunyddiau dwyieithog i'w defnyddio lle bo'n bosib wrth dderbyn hyfforddiant mewn swydd yn gyson.

Noder hefyd bod deunyddiau e-ddysgu newydd cyfrwng Cymraeg gydag is-deitlau Saesneg wedi eu creu a'u dosbarthu ar gyfer yr isadran Hamdden fel y nodir uchod, yn benodol yn y maes hyfforddi beicio a nofio.  Hefyd, fel y nodwyd uchod, crëwyd adnodd a ddefnyddir bellach yn ein hyfforddiant i fentoriaid.

### SAFONAU

Darparu hyfforddiant yn y meysydd penodol os darperir hyfforddiant o'r fath yn Saesneg (128)
Cofnod o'r hyfforddiant a ddilynwyd (152)

Mae ***Safon 128*** yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os darperir hyfforddiant o'r fath yn Saesneg: (a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) sefydlu; (ch) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.


Mae ***Safon 152*** yn gosod cyfrifoldeb ar y cyngor i gadw cofnod, am bob blwyddyn ariannol, o:
(a) Nifer yr aelodau staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigir yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a
(b) os ydych wedi cynnig fersiwn Gymraeg o gwrs yn unol â safon 128, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.


*Yn ystod 2019-20, gwnaethom gofrestru yn unol â Safon 152 (a), bod 6,387 yn mynychu cyrsiau lle cynigiwyd darpariaeth Gymraeg. O'r 6,387 a fynychodd y cyrsiau lle cynigiwyd yr addysgu yn Gymraeg, dilynodd 204 y ddarpariaeth trwy gyfrwng Cymraeg neu 3.19% (Safon 152 (b))*


## Awdit Sgiliau Iaith




Mabwysiadodd y Cyngor *Strategaeth Sgiliau Iaith* ym mis Ionawr 2016 gyda'r amseru'n berffaith o ran cydymffurfio â'r Safonau ar 30 Mawrth 2016. Un o gamau gweithredu'r Strategaeth oedd diweddaru'r awdit o sgiliau iaith y gweithlu ac roedd yn cyd-fynd gyda Safon 127 sy'n rhoi cyfrifoldeb ar y Cyngor i *'asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion'*. Wrth i'r staff dderbyn hyfforddiant a symud ar hyd y continwwm, mae'r cofnod yn cael ei ddiweddaru ac wrth benodi aelodau newydd o staff mae'r cofnod yn cael ei roi ar feddalwedd Adnoddau Dynol. Dyma'r data a oedd ar y system ar ddiwedd mis Mawrth 2019 –




- Gwnaethpwyd yr arolwg staff mewn dwy ran. Cynhaliwyd arolwg meta-cydymffurfiaeth ar gyfrifiaduron y Cyngor ar gyfer yr holl staff swyddfa ac ar gyfer y staff sy'n gweithio ar draws y sir heb gyswllt swyddfa, defnyddiwyd meddalwedd SNAP a theclynnau symudol a fersiwn papur.
- Mae'r holl ddata yn seiliedig ar hunanasesiad y staff o lefelau eu sgiliau iaith. Wrth gwblhau'r awdit gofynnwyd i staff nodi unrhyw gefnogaeth y byddent yn dymuno ei chael i wella eu sgiliau iaith.

Yn unol â ***Safon 136***, cadwyd y cofnodion canlynol yn ystod 2019/20 y nifer y swyddi a hysbysebwyd a lefel y ***sgiliau iaith llafar*** ar y swyddi hynny.


| LEFEL A HYSBYSEBWYD | NIFER Y SWYDDI | DIFFINIAD Y FFRAMWAITH |
|---|---|---|
| **Lefel 1** | **92** | • Medru ynganu enwau llefydd ac enwau personol yn gywir.<br>• Medru cyfarch cwsmeriaid mewn derbynfa neu ar y ffôn.<br>• Medru agor a chloi sgwrs. |
| **Lefel 2** | **245** | • Medru deall craidd sgwrs.<br>• Medru derbyn a deall negeseuon syml ar batrymau arferol, e.e. amser a lleoliad cyfarfod, cais am siarad gyda rhywun.<br>• Medru cyfleu gwybodaeth elfennol a chyfarwyddiadau syml.<br>• Medru agor a chau sgwrs a chyfarfod yn ddwyieithog. |
| **Lefel 3** | **384** | • Medru deall a chymryd rhan yn y rhan fwyaf o sgyrsiau arferol o ddydd i ddydd yn y swyddfa.<br>• Medru cynnig cyngor i'r cyhoedd ar faterion cyffredinol mewn perthynas â'r swydd, er yn gorfod troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu arbenigol.<br>• Medru cyfrannu i gyfarfod neu gyflwyniad ar faterion cyffredinol mewn perthynas â'r swydd, er yn gorfod troi i Saesneg ar gyfer termau technegol neu arbenigol. |
| **Lefel 4** | **31** | • Medru cyfrannu'n effeithiol mewn cyfarfodydd mewnol ac allanol yng nghyd-destun y pwnc gwaith.<br>• Medru deall gwahaniaethau cywair a thafodiaith.<br>• Medru dadlau o blaid ac yn erbyn achos penodol.<br>• Medru cadeirio cyfarfodydd ac ateb cwestiynau o'r Gadair yn hyderus. |
| **Lefel 5** | **27** | • Medru cyfrannu'n rhugl a hyderus yng nghyswllt pob agwedd ar y gwaith beunyddiol, gan gynnwys trafod a chynghori ar faterion technegol, arbenigol neu sensitif.<br>• Medru cyfrannu i gyfarfodydd a darparu cyflwyniadau yn rhugl a hyderus. |
| **CYFANSWM** | **779 SWYDDI** | |

Yn unol â ***Safon 136***, cadwyd y cofnodion canlynol yn ystod 2019/20 o nifer y swyddi a hysbysebwyd a lefel y ***sgiliau iaith ysgrifenedig*** ar y swyddi hynny.

| LEFEL A HYSBYSEBWYD | NIFER Y SWYDDI | DIFFINIAD Y FFRAMWAITH |
|---|---|---|
| Lefel 1 | 428 | • Medru ysgrifennu enwau personol, enwau llefydd, teitlau swyddi ac enwau adrannau'r Cygnor. |
| Lefel 2 | 254 | • Medru llunio neges fer syml ar bapur neu e-bost i gydweithiwr o fewn y Cyngor neu gyswllt cyfarwydd y tu allan i'r Cyngor. |
| Lefel 3 | 62 | • Medru llunio negeseuon ac adroddiadau anffurfiol at ddefnydd mewnol. |
| Lefel 4 | 12 | • Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a llenyddiaeth hysbysrwydd gyda chymorth golygyddol. |
| Lefel 5 | 23 | • Medru llunio gohebiaeth fusnes, adroddiadau byr, negeseuon e-bost a llenyddiaeth hysbysrwydd i safon dderbyniol gyda chymorth cymhorthion iaith.<br>• Medru llunio nodiadau manwl wrth gymryd rhan lawn mewn cyfarfod. |
| CYFANSWM | 779 SWYDDI | |

Ar y tudalennau olynol, ceir **astudiaethau achos** sy'n manylu ar ddarnau o waith penodol yn ystod 2019/20.

## Astudiaeth Achos 1: Fideo Nofio




https://vimeo.com/357654388/013bac4c4f

**Bwriad:** Hyfforddi staff ar sut i ddarparu hyfforddiant nofio yn Gymraeg mewn sefyllfa ddwyieithog.

**Safon 84: Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.**

**Y Broses a'r Amserlen**:

| AMSERLEN | Y BROSES |
|---|---|
| **Mawrth 2019** | Comisiynu cwmni *Optimwm* i wneud y gwaith ar ôl derbyn dyfynbrisiau |
| **Ebrill 2019** | Ymgynghori ar y cynnwys a Sgriptio |
| **Mehefin 2019** | Cychwyn ffilmio |
| **Medi 2019** | • Gorffen fersiwn derfynol<br>• Anfon y ddolen at reolwyr ar isadran Hamdden |
| **Hydref 2019** | • Lansio ar ddiwrnod Shwmae<br>• Gweinyddu holiadur SNAP i gael adborth staff |
| **Ionawr - Chwefror 2020** | Sesiynau ategol ar dermau nofio |
| **Chwefror 2020** | • Taith Actif Sioeau Teithiol: 100 o staff y tri prif Ganolfan Hamdden wedi gweld y fideo<br>• Ebost dilynol gyda rhestrau geirfa a chlipiau sain<br>• Rhoi caniatâd i Nofio Cymru ei ddefnyddio |

**Casgliadau a phenderfyniadau o'r broses uchod**:
- Cynnwys cyfarwyddiadau ar y broses gyfan – o gofrestru plant ar wersi i ddarparu'r sesiynau eu hunain
- Pwysigrwydd cael staff derbynfeydd i weld y fideo yn ogystal a hyfforddwyr nofio
- Llawer o botensial darparu'n Gymraeg o ran sgiliau iaith hyfforddwyr ond bod angen hwb i'w hyder a chefnogaeth cydweithwyr a rheolwyr

**Llwyddiannau**:
Roedd y fideo yn ddeniadol a phwrpasol i drosglwyddo neges gref i staff am y disgwyliadau sydd arnynt i ddarparu yn Gymraeg, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd o natur ieithyddol cymysg, a hynny heb lithro yn ôl i'r Saesneg o hyd. Roedd yr holl staff a atebodd yr holiadur yn hoff o'r fformat fideo ac yn meddwl fod yr adnodd yn ddiddorol. Roedd yr adnodd wedi atgyfnerthu yr hyn roedd rhai hyfforddwyr yn ei wneud yn barod ac wedi cyflwyno'r syniad o ddefnyddio Cymraeg o'r newydd i eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi dysgu rhywbeth newydd o'r fideo; o'r angen i roi adborth Cymraeg i rieni i fod angen gofyn i'r plant wrth ddechrau dysgu os oedden nhw'n siarad Cymraeg. Roeddwn yn arbennig o falch o ansawdd gweledol y fideo, o addasrwydd y neges ac o'r ffaith ein bod wedi cael adborth cynifer a phosib o ymarferwyr yn y maes wrth ei lunio.

Roedd yr ymdrech i gael adborth yn dilyn rhannu'r fideo yn ymarfer llafurus ond gwerthfawr gan ei fod yn sicrhau fod staff yn ystyried yr hyn yr oedden nhw wedi dysgu wrth drafod yr holiadur. Cafwyd ymateb gan 17 aelod o staff ac o hynny, deilliodd sesiynau dilynol wyneb yn wyneb i fwrw golwg ar dermau nofio ac i fagu hyder staff i ddefnyddio'r Cymraeg sydd ganddynt.

Gwersi nofio yn Gymraeg

**Ydych chi'n teimlo fod angen rhywbeth arall arnoch chi i fedru darparu gwersi nofio dwyieithog?**


| |
|---|
| confidence! Increased vocabulary. |
| Fi'n iawn, ond falle byddai termau yn ddefnyddiol - handouts/resources ar pool side |
| Na |
| CPD Welsh that is specifically directed at swimming |
| Mae Cath yn gwneud fel mae'r fideo'n dweud beth bynnag Mae angen cardiau fflach Cymraeg i'r byddar |
| In process of flash cards and familiar phrases. More language training in December on this |
| Popeth gyda nhw nawr. Jyst mater o neud e o hyd. Dim ond angen magu hyder. |
| Term for swimming specifically in December- key words. Terms are on ipads has been done. |
| refresher in welsh language after living away from wales for 16 years and not using the language |
| Ddim yn gwybod pwy yw'r staff dysgu. Bydde hi'n hoffi adnabod y staff nofio a gwbod os yn siaraCymr |
| yes some translation work for key teaching points |
| Course to develop the basic swimming termanology- No desk/ computer time available here at the LC |
| Efallai bydd rhai hyfforddwyr yn gweld sesiwn terminoleg yn help. |
| Yes. Welsh lessons. Handouts to instructors |

Er mwyn diwallu gofynion y staff am hyfforddiant pellach, fe gasglon ni'r rholl restrau termau nofio at ei gilydd a chreu un newydd gyda chlipiau sain i gyd fynd ag e. Rhanwyd rhain mewn sesiynau yng Nghanolfanau hamdden Llanelli, Llanymddyfri a Rhydaman.

**Lansiad:** Lansiwyd y Fideo hyfforddi fel rhan o Ddigwyddiad dathlu dysgu ar Ddiwrnod Shwmae yn yr Egin, Caerfyrddin.

**Adborth:**
*Diolch am ddoe ac am y deunyddiau. Roedd yr adborth o'r athrawon yn ardderchog. Roedd un athro wedi dweud bod y fideo yn werthfawr iawn ac mae hi nawr yn gallu deall y pwysigrwydd o siarad Cymraeg. Roedd un arall yn gofyn am rhybweth fel hwn eto oherwydd roedd yr amser wedi mynd yn gyflym.*

## Astudiaeth Achos 2: Hyfforddiant Beicio, *Ready, Set, Ride*




**Bwriad: Sicrhau bod deunyddiau hyfforddi cyfredol ar gael yn Gymraeg fel ein bod yn gallu darparu hyfforddiant i'n hysgolion, er mwyn iddyn nhw allu darparu hyfforddiant i blant yn Gymraeg gydag adnoddau mor ddeniadol a chyfredol â'r rhai Saesneg.**

**Safon: 84** Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.

**Y Broses a'r Amserlen:**

| AMSERLEN | Y BROSES |
|---|---|
| **Rhagfyr 2018** | Arweinwyr iaith hamdden yn adnabod y diffyg yn fewnol |
| **Ionawr - Mawrth 2019** | Cyfathrebu gyda Seiclo Cymru, Seiclo Prydain a Youth Sports Trust am y posibiliadau o gyfieithu eu hadnodd *Ready, Set Ride* i'r Gymraeg |
| **Mai 2019** | Cytuno i dalu a threfnu cyfieithu'r adnoddau |
| **Mai 2019** | Trefnu'r gwaith cyfieithu |
| **Mehefin – Rhagfyr 2019** | Cydweithio gyda Seiclo Prydain ar ddrafftiau o'r fersiynau wedi eu cyfieithu ac wedi eu dylunio |
| **Rhagfyr 2019** | Cwblhau set derfynol o gardiau hyfforddi a thystysgrifau |
| **28 Chwefror 2020** | Darparu hyfforddiant peilot gyda Youth Sports Trust gan gyflwyno'r adnoddau newydd am y tro cyntaf i ysgolion cynradd ardal Llanelli |

**Casgliadau a Phenderfyniadau o'r broses uchod:**

- Hollbwysig cael un person yn gyrru'r broses ymlaen, yn dyfalbarhau ac yn cydlynu rhwng y 4 corff dan sylw,
- Pwysigrwydd bod mewn sefyllfa i allu cyfrannu'n ymarferol i'r datrysiad. Roedd gallu cynnig trefnu a gwneud y cyfieithu yn y sefyllfa hon wedi rhoi ysgogiad i'r dasg, a'n rhoi ni mewn sefyllfa i allu mynnu bwrw'r maen i'r wal,
- Roedd cael un person i gyfathrebu wrth i'r fersiynau Cymraeg o'r deunyddiau gael eu dylunio, i wirio'r Gymraeg ar bob set o gardiau yn hanfodol,

- Roedd cael cyswllt cyson gyda'r staff gweithredol yn seiclo Prydain a chyda'r staff mwy strategol yn hollbwysig. Roedd angen cael penderfyniadau ynglŷn â sut roedd y deunyddiau'n mynd i gael eu darparu'n Gymraeg o gymharu a'r broses yn Lloegr wrth i gwestiynau ynglŷn â sut a beth i gyfieithu a dylunio'n codi.

**Llwyddiannau**:
Roedd cynrychiolaeth o 19 ysgol neu feithrinfa yn bresennol yn yr hyfforddiant yng Nghanolfan hamdden Llanelli ar ddiwedd Chwefror, a 11 o'r rheini yn mynd i ddefnyddio'r adnodd yn Gymraeg.

Yn dilyn y cydweithio, gofynnodd Seiclo Prydain a fyddai gennym ddiddordeb mewn cyfieithu mwy o ddeunyddiau ar ei cyfer. Dyma oedd holl bwynt eu harwain ar hyd y daith hon yn ymarferol – roeddwn yn gobeithio y byddai'n agor eu llygaid i'r angen am ddeunyddiau Cymraeg ac hefyd yn dangos iddynt mor hawdd gall y broses fod. Y gobaith yw y gall yr adnodd gael sylw yn y flwyddyn nesaf ac y bydd hwn yn ysgogi cyrff llywodraethu chwaraeon eraill i wneud gwaith tebyg. Sgil-effaith y gwaith yw fod ein huned gyfieithu wedi derbyn mwy o waith gan y corff yn uniongyrchol.

**Adborth**:
- Youth Sports Trust: This is brilliant news, great to hear that we are now at this stage! Thank you for your time and input into helping to make this happen and agree would be great to get the certificates design up too.
- Rheolwr Cymunedau Actif Sir Gar: Diolch am dy holl waith yn sortio hwn. Gobithio fydd hwn yn esiampl dda i gyrffiau llywodraethu cenedlaethol eraill i ddilyn.
- Seiclo Cymru: This is fantastic – thank you for your help with making this happen, it's fantastic that we have Welsh resources.
- Cynorthwydd Ysgol Penrhos:

Cynorthwydd Ysgol Penrhos, Llanelli.MP

Byddwn yn lansio'r adnodd hwn yn ystod 2020-21.

## Astudiaeth Achos 3: Dathliad Dysgu




**Safon 98: Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio’r Gymraeg yn fewnol, gyda’r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi’r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.**

**Bwriad**: Dathlu ein hymdrechion i hybu a hwyluso defnyddio’r Gymraeg yn y gweithle.

**Y Broses**:

- Tîm Polisi a’r Ymgynghorydd Dysgu a Datblygu’r Gymraeg yn cytuno ar ddyddiad y digwyddiad : penderfynu cyfuno diwrnod ‘Shwmae’ ac wythnos Dysgu Cymraeg i ddathlu defnydd o’r Gymraeg o fewn y Cyngor
- Penderfynu ar leoliad a chynnwys y digwyddiad – y Theatr yn Yr Egin, Caerfyrddin. Lansio i) Pecyn mentoriaid, ii) Cardiau Fflach y Gwasanaeth Gofal, iii) Fideo hyfforddi nofio, iv) cyfleoedd dysgu Cymraeg SSiW, v)cyflwyno tystysgrifau i ddysgwyr y Cyngor
- Gwahodd siaradwyr – Efa Gruffudd Jones, Cyng. Peter Hughes Griffiths, Cyng. Mair Stevens, Ian Jones, Iestyn ap Dafydd
- Paratoi cynnwys y cyflwyniadau
- Gwahodd mynychwyr drwy ‘Tocyn Cymru’
- Trefnu tystysgrifau i’r Dysgwyr: 21 o ddysgwyr Cymraeg yn y gymuned a Chymraeg Gwaith
- Cynnal y digwyddiad
- Gosod vimeo o’r digwyddiad ar ein mewnrwyd

Digwyddiad
DAthlu.ppt




**Llwyddiannau**:

- Codi Statws y Gymraeg o fewn y Cyngor,




- Dangos i aelodau'r cyhoedd gymaint o waith sy'n cael ei wneud i gynyddu sgiliau Cymraeg y staff ac i ddarparu adnoddau i hwyluso defnydd staff o'r Gymraeg,
- Dathlu'r ystod eang o gyrsiau Cymraeg sydd ar gael ers sefydlu'r ganolfan
- Cydnabod ymdrechion ein dysgwyr a cynyddu eu teimlad o falchder am eu llwyddiannau wrth ddysgu



**Adborth:**

*Dim ond gair o ddiolch o waelod calon am y digwyddiad amser cinio heddi – rhagorol – ac yn ein hatgoffa o'r holl waith da sy'n digwydd o fewn y Cyngor a'r ysbryd da hefyd ymhlith ein staff.*